

*Canllawiau Cynllunio Atodol*

Mabwysiadwyd  
Awst 2018

# Archeoleg a Datblygu

*(yn cynnwys Gerddi a Thirweddau Dynodedig)*



*Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin*

# Rhestr Gyfeirio

Mae gofyn i bob ymgeisydd/datblygwr ar gynlluniau sydd ag agweddau archeolegol, neu sy'n effeithio ar erddi a thirweddau dynodedig, ystyried y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn a dylent ddefnyddio'r rhestr gyfeirio isod.

- Cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio cynnar gyda gwasanaeth Rheoli Datblygu'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.
- Bod yn ymwybodol o sut y gallai cynigion datblygu effeithio ar adnoddau archeolegol a'r amgylchedd treftadaeth (yn cynnwys Gerddi a Thirweddau Dynodedig).
- Ymgynghori â'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cael ei ddal a'i gynnal gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, er mwyn penderfynu a oes adnoddau treftadaeth neu archaeolegol yn bresennol ar safleoedd datblygu posibl.
- Os oes gwaith archeolegol yn cael ei ystyried yn gefn i gais cynllunio, gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis ymgynghorwyr arbenigol cymwys a medrus.
- Sicrhau bod unrhyw waith archeolegol yn gefn i'r broses gynllunio yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol ac yn dilyn y canllawiau a roddir yn y ddogfen hon.



# Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Amgylchedd Hanesyddol Sir Gaerfyrddin
3. Polisi Cenedlaethol a Lleol
4. Archeoleg a'r Broses Gynllunio
5. Gweithdrefnau er Ymgymryd â Gwaith Archeolegol
6. Tref Caerfyrddin

**Atodiad 1**  
**Rheoli Datblygu - Archeoleg o fewn y Broses o Wneud Cais Cynllunio**

**Enwau Cyswllt**



# Rhagarweiniad

1

1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn ymhelaethu ar bolisiau a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin ac yn eu datblygu. Wrth wneud hynny mae'n ceisio gwarchod treftadaeth archeolegol y Sir, a'i lleoliad, drwy roi cyngor ar y ffordd orau i gynigion datblygu ystyried materion archeolegol. Er nad yw presenoldeb gweddillion archeolegol o reidrwydd yn atal datblygu, cydnabyddir eu bod yn cynrychioli ffynhonnell gwybodaeth am y gorffennol sydd a therfynau iddi. O ganlyniad, mae ymchwilio iddynt a, lle mae'n briodol, eu cadw yn bwysig ynddo'i hun a gallant ddarparu adnoddau addysgol ac adnodd twristiaeth amhrisiadwy.

1.2 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad manwl ar sut i ymdrin ag archaeoleg yn y broses gynllunio. Byddant hefyd yn nodi polisiau cenedlaethol sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, yn ogystal ag ystyriaethau polisi lleol.

1.3 Maent hefyd yn darparu gwybodaeth fanwl bellach ar ofynion a gweithdrefnau rheoli datblygu'r Awdurdod ac unwaith y byddant wedi'u mabwysiadu byddant yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.4 Gan y bydd disgwyl i ymgeiswyr/datblygwyr dalu costau gwaith archeolegol, bydd y ddogfen hon yn help i dywys pobl nad ydynt yn arbenigwyr drwy'r gweithdrefnau cynllunio a'r gwaith archeolegol a allai fod yn ofynnol. Gellir cael gwybodaeth am gontractwyr archeolegol proffesiynol gan Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA) neu Adnodd Swyddi Archeolegol Prydain (BJAR).

1.5 Gan gydnabod arwyddocâd hanesyddol arbennig Tref Caerfyrddin a'i photensial archeolegol mawr, mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth benodol ychwanegol ynglŷn â gweithdrefnau a gofynion y broses gynllunio.

1.6 Mae'n drosedd, y gellir ei chosbi â dirwy, gwneud gwaith ar heneb gofrestrdig heb yn gyntaf gael caniatâd heneb gofrestrdig. Mae hefyd yn drosedd difrodi neu ddinistrio heneb gofrestrdig. Y gosb fwyaf am hyn yw dirwy benagored a/neu gyfnod o ddwy flynedd o garchar.

# Amgylchedd Hanesyddol Sir Gaerfyrddin

# 2

2.1 Caiff Sir Gaerfyrddin ei chydabod fel ardal o arwyddocâd hanesyddol arbennig. Mae ei thirwedd yn amrywiol, yn ymestyn o'r gwastadeddau arfordirol yn y de drwy fryniau mwyn sy'n codi hyd at Fannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria yn y gogledd-ddwyrain. Mae'r dirwedd hynafol hon o ffurfiannau daearegol naturiol wedi cael ei saerño a'i datblygu dros filoedd o flynyddoedd drwy weithgarwch dyn, sydd wedi gadael ei ôl digamsyniol ar y Sir. Mae'r holl dirwedd felly yn hanesyddol ac arwyddocaol er bod rhai ardaloedd, fel Dyffryn Tywi, wedi cael eu nodi'n ardaloedd ac iddynt werth hanesyddol arbennig ac wedi'u cynnwys ar y *Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, Rhan 2.1 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol*.

2.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn fod i amgylchedd hanesyddol y Sir werth uchel nid dim ond o ran ei etifeddiaeth hanesyddol ac archeolegol gyfoethog ond hefyd o ran y buddion y gall eu darparu i'r presennol a'r dyfodol. Mae'n cyfrannu'n sylweddol i'n bywydau modern gan roi inni ymdeimlad o le a hunaniaeth. Mae hefyd yn cynnig budd

economaidd sylweddol gan ddenu ymwelwyr i'r sir.

2.3 Fel diffiniad, mae'r amgylchedd hanesyddol wedi cael ei ddisgrifio fel hyn:

*The past is all around us. We live our lives, whether consciously or not, against a rich backdrop formed by historic buildings, landscapes and other physical survivals of our past. But the historic environment is more than just a matter of material remains. It is central to how we see ourselves and to our identity as individuals, communities and as a nation. It is a physical record of what our country is, how it came to be, its successes and failures. It is a collective memory, containing an infinity of stories, some ancient, some recent: stories written in stone, brick, wood, glass, steel; stories inscribed in field patterns, hedgerows, designed landscapes and other features of the landscape.* [The Historic Environment: A Force for Our Future. Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2001]

2.4 Mae treftadaeth hanesyddol ac archeolegol

Sir Gaerfyrddin yn eithriadol. Mae tystiolaeth wedi goroesi yn y dirwedd o arferion ffermio a choedwigaeth cynnar, aneddiadau a ffermydd gwasgaredig, cloddio am fwynau, concwestau milwrol, crefydd a chyfathrebu. Mae'r Sir yn frith o safleoedd archeolegol pwysig o bob cyfnod, yn amrywio o safleoedd ogofâu Palaeolithig, henebion angladdol a defodol a bryngaerau o'r cyfnodau cynhanes, i gaerau Rhufeinig, ffyrdd ac aneddiadau (yn cynnwys tref bwysig Caerfyrddin), ac i gestyll, safleoedd mynachaid ac aneddiadau cnewyllog yr Eingl-Normaniaid a gweddillion ôl-ganoloesol a diwydiannol a milwrol.

2.5 Drwy'r system cynllunio defnydd tir, ac yn unol â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol, bydd y Cyngor yn ceisio diogelu ein hamgylchedd hanesyddol a sicrhau nad yw safleoedd o arwyddocâd hanesyddol ac archeolegol yn cael eu dinistrio na'u difrodi yn ddianghenraid.

# Polisi Cenedlaethol a Lleol

3.1 Yn y Deyrnas Unedig, mae gwarchod henebion a gweddillion archaeolegol o bwys cenedlaethol yn cael ei reoli o dan ddarpariaethau **Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979**. Yng Nghymru, mae Cadw, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal cofrestr o safleoedd o bwys cenedlaethol, sy'n bodloni meini prawf llym er mwyn cael eu cynnwys a'u gwarchod. O dan y gyfraith, mae'n drosedd dymchwel, difrodi, newid neu dipio'n anghyfreithlon ar y safleoedd cofrestredig hyn heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru drwy Cadw, Cyfarwyddiaeth Henebion Cymru yn Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae'n ofynnol gwarchod henebion neu weddillion archaeolegol eraill nad ydynt wedi'u cofrestru, sydd ag arwyddocâd cenedlaethol neu ranbarthol, o dan ddeddfwriaeth y Llywodraeth, yn arbennig ddarpariaethau'r **Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref** a'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r safleoedd hanesyddol hyn wedi'u nodi'n swyddogol ar gronfeydd data Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH), sy'n cael eu dal a'u cynnal gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAC) ac a fabwysiadwyd drwy benderfyniad Cyngor Sir Gaerfyrddin i gyflawni'i swyddogaeth gynllunio statudol

3.3 Ar gyfer rhai mathau o ddatblygu (a restrir yn Atodlenni 1 a 2 at **Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999**, efallai y bydd rhaid cynnal asesiad ffurfiol o'r effaith amgylcheddol. Lle mae asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ofynnol, rhaid i'r datblygwr ddarparu'r asesiad amgylcheddol gan nodi'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 3 at y Rheoliadau am y safle ac effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw effeithiau arwyddocaol ar asedau materol a'r dreftadaeth ddiwylliannol, megis nodweddion archeolegol ac arteffactau dynol eraill, a'r mesurau a ragwelir i osgoi, lleihau neu gywiro effeithiau niweidiol o'r fath.

3.4 Nodir bod **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** bellach ar waith a'i fod yn ffurfio rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau sy'n ceisio gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol er mwyn gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Yn fras, mae'r Bil yn rhoi gwarchodaeth fwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, yn gwella'r mecanweithiau presennol er rheoli'r

amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy, ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol.



## Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)

3.5 Polisi Cynllunio Cymru sy'n darparu'r cyd-destun trosfwaol i bolisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n dweud hyn:

6.2.1 Mae'n bwysig bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei warchod, ei reoli a'i gadw. Amcanion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn [yn benodol i archaeoleg] yw:

- *cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, sy'n adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac yn rhan hollbwysig ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru;*
- *cydnabod ei gyfraniad at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig, natur unigryw'r ardal leol ac ansawdd bywyd yng Nghymru, a'i bwysigrwydd fel adnodd i'w gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;*
- *seilio penderfyniadau ar ddealltwriaeth o arwyddocâd asedau hanesyddol Cymru;*

- *cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol drwy lunio cofnod priodol pan fydd cynnig arfaethedig yn effeithio ar rannau o ased hanesyddol, a sicrhau bod y cofnod hwn neu ganlyniadau unrhyw archwiliad yn cael eu harchifo'n ddiogel a'u cyhoeddi;*

*ac yn benodol*

- *cadw olion archaeolegol, er eu mwyn eu hunain ac oherwydd y rôl y maent yn ei chwarae o ran addysg, hamdden a'r economi;*


6.2.2 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol a chyrrff cyhoeddus eraill rôl bwysig i'w chwarae yn gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol ac o ran mynd ati ar yr un pryd i'w helpu i ddiwallu anghenion presennol a pharhau i ymateb iddynt.

6.5.5 Mae cadwraeth olion archaeolegol yn dal i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio, p'un a yw'r olion hynny yn heneb gofrestredig ai peidio. Pan fo olion archaeolegol sy'n bwysig yn genedlaethol, boed yn rhai cofrestredig neu beidio, a'u lleoliadau, yn debygol o gael eu heffeithio gan

*ddatblygiad arfaethedig, dylid rhagdybio o blaid eu cadw'n ffisegol yn y lle y maent. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd cynllunio os bydd datblygiad yn cael effaith andwyol ar heneb gofrestredig (neu safle archaeolegol y dangoswyd ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol) neu effaith niweidiol sylweddol ar ei lleoliad. Mewn achosion sy'n cynnwys olion archaeolegol llai pwysig, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol bwysu a mesur pwysigrwydd cymharol yr olion archaeolegol a'u lleoliadau, ymhlith ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.*

## Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

3.6 Cafodd Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2017 ac roedd yn disodli Cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig 60/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg; 61/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth; ac 1/98 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.



3.7 Ei ddiben yw darparu canllawiau ar y modd y mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio ac Adeiladau Rhestredig (TAN 24, 1.4). Am ragor o wybodaeth, gweler Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/docs/desh/policy/180223tan-24-the-historic-environment-cy.pdf>

## Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin

3.8 Y CDLI yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer y Sir (heb gynnwys yr ardal sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac mae'n darparu'r fframwaith polisi lleol yr ystyrir cynigion datblygu yn ei erbyn. Mae pwysigrwydd yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn thema ganolog yn y CDLI ac mae'n rhedeg drwodd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun i'r polisiâu strategol a phenodol.

3.9 Mae'r CDLI yn darparu fframwaith polisi sy'n ceisio cysoni'r angen i ddatblygu gyda buddiannau cadwraeth, yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol. Yn y nod strategol hwn mae'n darparu polisiâu allweddol ar ddeall, gwarchod, gwella a chadw safleoedd o ddiddordeb archaeolegol a'u lleoliadau. Nid yw'r CDLI yn ceisio ailadrodd datganiadau polisi cenedlaethol yn ormodol. Lle mae hynny'n berthnasol, felly, bydd y Cyngor yn defnyddio deddfwriaeth sylfaenol a pholisi cenedlaethol i helpu i benderfynu ar gynigion datblygu. Mae polisiâu o'r fath hefyd yn tanategu gweithrediad y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn.

3.10 Mae'r CDLI yn cynnwys y polisiâu canlynol ynglŷn â gwarchod amgylchedd hanesyddol y Sir:

### SP13 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol

Dylai cynigion datblygu warchod neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y sir, ei hasedau diwylliannol, trefweddol a thirweddol (a nodir isod), a, lle bo'n briodol, eu lleoliad. Caiff cynigion sy'n ymwneud â'r canlynol eu hystyried yn unol â chanllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth.

- a) Safleoedd a nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol a Diwylliannol cydnabyddedig;
- b) Adeiladau rhestredig a'u lleoliad;
- c) Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliad;
- d) Henebion Rhestredig a safleoedd eraill o bwysigrwydd archaeolegol cydnabyddedig.

Disgwylir i gynigion hybu dyluniad o ansawdd da sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu a gwella'r lleoliad lleol a phriodweddau diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun.



### **Polisi EQ1 Gwarchod Adeiladau, Tirweddau a Nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol**

Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar dirweddau, trefweddau, adeiladau a safleoedd neu nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu archaeolegol sydd, yn rhinwedd eu pwysigrwydd, cymeriad neu arwyddocâd hanesyddol mewn grŵp o nodweddion yn gwneud cyfraniad pwysig at y cymeriad lleol ac at ddiddordeb yr ardal, yn cael eu caniatáu ond os ydynt yn gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol

### **Polisi EQ2 Datblygiadau Galluogi**

Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau galluogi sy'n hanfodol i sicrhau dyfodol hirdymor nodwedd neu adeilad hanesyddol ond yn cael eu caniatáu:

- a) Os yw'r budd i'r gymuned o barhad bodolaeth yr adeilad neu nodwedd hwnnw'n gwrthbwyso anfanteision rhoi caniatâd;

- b) Os oes tystiolaeth glir bod pob dewis arall wedi cael eu profi'n anhyfyw, gan gynnwys argaeledd cymhorthdal ariannol;
- c) Os nad yw'n niweidio'n hanfodol yr adeilad neu'r nodwedd y mae'n ceisio ei gynorthwyo neu ei leoliad neu'r ardal y saif ynddi;
- d) Sicrhau bod maint a graddfa'r datblygiad galluogi mor fach ag sy'n bosibl o gofio'r angen.

Bydd cynigion yn destun rhaglen gwaith gytunedig. Rhaid i gyflwr yr adeilad neu'r graddau y mae wedi ei adfer fod yn unol â'r rhaglen gwaith cyn i'r datblygiad galluogi feddiannu'r adeilad neu nodwedd.

# Archeoleg a'r Broses Gynllunio

## Rôl Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI)

4.1 Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol nifer o gyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â safleoedd archaeolegol a henebion yn eu hardaloedd. Er enghraifft, efallai fod ganddynt weddillion, adeiladau neu safleoedd o bwys yn eu gofal; efallai y byddant yn caffael henebion ac yn rhoi cymorth grant i helpu i'w gwarchod a gallant helpu i gadw a rheoli safleoedd hanesyddol sy'n cyfrannu at y dirwedd leol, amwynderau ac economi'u hardal; yn olaf, mae ganddynt rôl holl bwysig yn diogelu'r dreftadaeth archaeolegol drwy eu swyddogaethau rheoli datblygu.

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, sy'n cynnal Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol yr ardal ac yn darparu cyngor archaeolegol o fewn y broses gynllunio.

4.3 Lle mae ceisiadau cynllunio'n effeithio ar henebion cofrestredig, neu'u lleoliad, bydd y Cyngor yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru drwy Cadw (Paragraff 6.3.1 Polisi Cynllunio Cymru).

## Rôl Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

4.4 Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn un o'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif 1198990) ac yn Elusen Gofrestredig (Rhif 504616). Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo addysg y cyhoedd ym maes archaeoleg. Mae wedi ymrwymo i weithio er mwyn gwarchod, cofnodi a dehongli pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn darparu gwasanaethau cynllunio archaeolegol cynhwysfawr ar ran pedwar Awdurdod (yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin) ac eraill sy'n ymwneud â datblygu a newid defnydd tir, yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

4.5 Mae'n darparu gwasanaethau archaeolegol cynhwysfawr yn cynnwys gwybodaeth a chynghor fel rhan o'r broses gynllunio. Mae adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn defnyddio gwybodaeth o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol i roi arweiniad ynglŷn â ph'un a oes dimensiwn archaeolegol wedi'i nodi, a chyfyngiadau ar ddatblygu. Darperir cyngor hefyd ynglŷn â pha gamau gweithredu sy'n ofynnol i warchod buddiannau archaeolegol. Bydd adran Rheoli

Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn cysylltu â swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeiswyr/datblygwyr, i fonitro gwaith archaeolegol sy'n ofynnol fel rhan o'r broses gynllunio.

## Henebion Cofrestredig a Cadw

4.6 Mae gan gyfran fach o'r safleoedd archaeolegol a'r henebion yn Sir Gaerfyrddin warchodaeth statudol fel Henebion Cofrestredig o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Bydd gofyn i unrhyw waith sy'n effeithio ar yr henebion hyn gael caniatâd heneb gofrestrdig gan Lywodraeth Cymru. Mae lleoliad heneb gofrestrdig a chadw agweddau ffisegol yr heneb yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio.

4.7 Mae caniatâd heneb gofrestrdig yn ganiatâd ar wahân i ganiatâd cynllunio, ac mae gwneud unrhyw waith ar heneb gofrestrdig heb ganiatâd yn drosedd sy'n agored i erlyniad o dan Ddeddf 1979. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn rhoi caniatâd heneb gofrestrdig,

nac i'r gwrthwyneb. Yn achos safle sy'n gofrestredig ac yn rhestredig, mae gan y ddeddfwriaeth ar henebion cofrestredig flaenoriaeth dros y gofynion ynglŷn ag adeiladau rhestredig. Yn y rhan fwyaf o achosion byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl i'r caniatâd heneb gofrestredig angenrheidiol gan Cadw gael ei gyflwyno gyda chais cynllunio sy'n effeithio ar heneb gofrestredig. Lle mae darpariaethau Deddf 1979 yn berthnasol, ni ddylai eu heffaith gael ei dyblygu gan amodau cynllunio, er bod Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio o dan amgylchiadau felly yn cael eu cynghori i dynnu sylw'r ymgeisydd at ddarpariaethau perthnasol Deddf 1979.

4.8 Dylid nodi bod gofyniad cyfreithiol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ymgynghori â Cadw ynghylch unrhyw gais sy'n debygol o effeithio ar Heneb Gofrestredig neu'i lleoliad.

4.9 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y safleoedd gwarchodedig hyn gan Cadw neu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.

### **Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol - Cael Gwybodaeth Gynnar**

4.10 Caiff darpar ymgeiswyr a datblygwyr eu hannog yn TAN 24 (adran 4) i geisio gwybodaeth a chynghor yn gynnar ynglŷn â'u cynigion, cyn iddynt lunio dyluniadau manwl. Dylai datblygwyr, er eu lles eu hunain, wneud arfarniad cychwynnol i ganfod a yw'n wybyddus fod gweddillion archaeolegol ar safle, neu a yw hynny'n debygol. Gyda'r wybodaeth gynnar hon, gall buddiannau archaeoleg a'r buddiannau datblygu gael eu cysoni fel arfer drwy ystyried a lliniaru priodol.

4.11 Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed. Mae'r cofnodion hyn ar hyn o bryd yn cynnwys dros 55,000 o safleoedd lle gwyddom fod buddiannau archaeolegol a hanesyddol ar draws De-orllewin Cymru.

### **Cael Cynghor Cynllunio yn Gynnar**

4.12 Cynghorir ymgeiswyr/datblygwyr i gael cynghor am yr amgylchedd hanesyddol yn gynnar drwy ymgynghori â'r Awdurdod

Cynllunio Lleol ac adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Gall ymgeiswyr/ datblygwyr nad ydynt yn ystyried materion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn gynnar wynebu oedi annisgwyl a dianghenraid a chostau ariannol yn ystod eu datblygiad. Ystyrir ei bod yn holl bwysig i bob parti sy'n ymwneud â'r broses gynllunio reoli'r risg hon drwy gael cynghor yn gynnar.

4.13 Dylai ymgeiswyr/datblygwyr fod yn ymwybodol hefyd fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi sefydlu ffordd newydd o weithio o ran prosesu ceisiadau cynllunio. Un o brif ganlyniadau'r newidiadau hyn yw'r angen i sicrhau bod unrhyw gais a gyflwynir yn "lân" cyn y gellir ei gofrestru'n ffurfiol a'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori. I gyflawni hyn, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio nodi pob mater cyn cofrestru'r cais yn ffurfiol e.e. a yw'r cynllun yn dderbyniol ai peidio, a oes angen rhagor o wybodaeth ac a oes unrhyw bethau'n anghywir yn y manylion a gyflwynir gan ymgeiswyr. Nid oes rhaid i ymgeiswyr gytuno i'r ffordd hon o weithredu, felly bydd ceisiadau nad ydynt yn adlewyrchu manteision "dechrau dwys" yn cael eu cofrestru, ond mae perygl iddynt gael eu gwrthod yn gynnar yn y cyfnod penderfynu.

## Gofynion cyn penderfynu ar geisiadau

4.14 Bydd ymgynghoriadau cynnar yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i ddarpar ymgeiswyr am sensitifrwydd archaeolegol eu safle. Fodd bynnag, bydd adegau pan nad oes digon o wybodaeth ar gael am yr adnodd archaeolegol posibl a bydd gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael rhagor o wybodaeth cyn y gellir ystyried y cais yn iawn. Lle mae gwybodaeth annigonol wedi cael ei darparu, gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu peidio â chofrestru cais cynllunio, oedi cyn penderfynu arno neu gall wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

4.15 Dywed Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.5.6 a TAN 24, paragraffau 4.7 a 4.8 y dylai ymgeiswyr, lle credir bod gweddillion pwysig yn bodoli ar safle datblygu, ddarparu gwybodaeth bellach am yr adnoddau archaeolegol cyn penderfynu ar y cais. Mae hyn yn ofynnol i sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwybod yn iawn am y potensial archaeolegol a bod mesurau lliniaru priodol i warchod buddiannau archaeolegol arwyddocaol wedi cael eu llunio ac y cytunwyd arnynt wrth benderfynu ar unrhyw gais am ganiatâd cynllunio.

4.16 Mae'r math o waith archaeolegol a allai fod yn ofynnol cyn dod i benderfyniad yn amrywiol – gallai olygu unrhyw beth o asesiad archaeolegol ar ddesg i werthusiad maes neu gyfuniad o lawer o dechnegau. Ymhelaethir ar y methodolegau hyn yn Atodiad 1.

## Gofynion ar ôl penderfynu ar geisiadau

4.17 Pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon fod ganddo ddigon o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol, gall cais cynllunio symud ymlaen i gael penderfyniad arno. Ar y cam hwn gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ar ôl cael cyngor gan adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, bwysu a mesur pwysigrwydd cymharol yr adnodd archaeolegol yn erbyn ffactorau eraill, yn cynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.

## Cadw Gweddillion Archeolegol yn Ffisegol Lle Maent

4.18 Lle mae datblygiad arfaethedig yn effeithio ar weddillion archaeolegol o bwys cenedlaethol, pa un a ydynt wedi'u cofrestru ai peidio, a'u lleoliadau, bydd rhagdybiaeth o blaid eu cadw'n ffisegol lle maent, h.y. rhagdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n golygu newid sylweddol neu'n achosi difrod,

neu a fyddai'n effeithio'n arwyddocaol ar leoliad gweddillion gweladwy. Yn yr achosion hyn efallai y bydd yn briodol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod ceisiadau cynllunio a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd hanesyddol.

## Lliniaru

4.19 O dan rai amgylchiadau, gall yr Awdurdod Cynllunio fynnu bod gofyn cytuno ar fesurau lliniaru priodol er sicrhau bod gweddillion archaeolegol arwyddocaol yn cael eu cadw'n ffisegol lle maent. Gall ymgeiswyr felly ystyried mathau o fesurau lliniaru a gynlluniwyd i warchod yr archaeoleg yn ei lle gan alluogi'r datblygiad i fynd yn ei flaen. Mae paragraff 4.11 TAN 24 yn tynnu sylw at y mesurau y gellir eu cymryd i leihau effaith cynnig datblygu ar olion archaeolegol a nodwyd a chaniatáu iddynt gael eu cadw yn eu lle.

4.20 Gallai atebion dylunio a thechnegau adeiladu priodol ganiatáu i weddillion archaeolegol gael eu selio o dan adeiladau neu drwy ddylunio tirweddol gofalus o fewn ardaloedd datblygu. Er bod y gweddillion efallai yn parhau y tu hwnt i gyrraedd am y tro, maent mewn gwirionedd yn cael eu cadw i'r dyfodol.

Mewn achosion o'r fath gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol geisio sicrwydd y bydd deunydd archaeolegol a gladdwyd yn aros yn ddiogel wedi i'r datblygiad gael ei adeiladu ac y bydd modd symud y datblygiad yn nes ymlaen heb effeithiau ychwanegol ar yr olion a gladdwyd.

4.21 Cynghorir ymgeiswyr sy'n bwriadu lleihau effaith eu datblygiad ar adnodd archaeolegol hysbys i'r eithaf drwy gynigion lliniaru i geisio cyngor adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn y lle cyntaf.

### **Cofnodi Tystiolaeth Archaeolegol**

4.22 Lle gwyddom fod gweddillion llai pwysig yn bodoli, gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu nad yw arwyddocâd y gweddillion archaeolegol yn ddigonol, o'i bwysu yn erbyn pob ystyriaeth berthnasol arall, yn cynnwys yr angen i ddatblygu, i gyfiawnhau eu cadw'n ffisegol lle maent ac y gall y datblygiad arfaethedig fynd rhagddo.

4.23 Mewn achosion felly, drwy bennu amod cynllunio priodol gellir ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwyr wneud trefniadau boddhaol i

gloddio, cofnodi, archifo a chyhoeddi'r adnodd archaeolegol.

4.24 Bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y cynllun archaeolegol a gyflwynir gan yr ymgeisydd ac yn rhoi cyngor i'r Awdurdod. Lle caniateir i waith archaeolegol gychwyn, bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn monitro pob cam o'r gwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau cynllunio a'i fod yn cynnal y safonau archaeolegol priodol sydd wedi'u pennu gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (ClfA).

### **Amodau Cynllunio**

4.25 Lle caiff caniatâd cynllunio ei roi i ddatblygiad a allai effeithio ar dir mewn ardal sy'n cael ei hystyried yn un o ddiddordeb archaeolegol, efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol am bennu amodau er mwyn gwarchod yr adnodd archaeolegol neu sicrhau bod mynediad rhesymol yn cael ei ddarparu i archaeolegydd. Mae paragraff 4.13 TAN 24 yn ymdrin â defnyddio amodau cynllunio mewn perthynas ag archaeoleg. Fel rheol bydd yr amodau cynllunio yn golygu bod angen i'r

ymgeisydd gomisiynu arbenigwr cymwys i gyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad archaeolegol sy'n disgrifio gwahanol gamau'r gwaith ac yn dangos fod digon o adnoddau wedi'u darparu ar ei gyfer ynghyd â digon o amser.

4.26 Gall adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed gynnig cyngor i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â lleoliad a hyd a lled yr adnodd hysbys a gall wneud awgrymiadau i leihau'r gwrthdaro posibl rhwng datblygu a chadw gweddillion archaeolegol. Mae'r amodau safonol yn cynnwys y gofyniad am fonitro gwaith ar safle o safbwynt archaeolegol trwy gyfrwng briff gwylio, map sribed, methodoleg cofnodi neu ymchwiliad archaeolegol trwy werthuso neu gloddio.

4.27 Dim ond pan ddangosir bod yr amodau wedi cael eu bodloni'n gywir ac yn llwyr y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod yr amodau cynllunio wedi'u cyflawni. Mewn achosion lle mae'n amlwg nad yw ymgeiswyr wedi rhoi gofynion amodau cynllunio ar waith, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr angen am gamau gorfodi.

## Monitro

4.28 Bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel arfer yn monitro gwaith archaeolegol i sicrhau cydymffurfio â gofynion cynllunio a chynnal safonau archaeolegol uchel yn y sir. Bydd unrhyw waith archaeolegol yn cael ei fonitro o'r cychwyn cyntaf a'r gwaith dylunio prosiect, drwy'r gwaith maes a'r prosesau ôl-gloddio, hyd nes y caiff yr archif a fydd yn deilio o'r prosiect ei adneuo mewn storfa y cytunwyd arni a'i gyhoeddi'n derfynol.

4.29 Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol gyngor gan adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ynglŷn â ph'un a oes modd cyflawni'r amodau un ai'n llawn neu'n rhannol wrth i gamau olynol y rhaglen waith archaeolegol y cytunwyd arni gael eu cwblhau'n llwyddiannus.

# Gweithdrefnau er Ymgymryd â Gwaith Archeolegol

5

## Cyfrifoldeb am Gostau

5.1 Mae gwaith archaeolegol, yn enwedig cloddio dwys, yn gallu cymryd llawer o amser a gall fod yn ddrud. Cyfrifoldeb y datblygwyr yn llwyr yw talu'r costau hyn. Fel rhan o ofyniad cynllunio, gall y gwaith hwn gynnwys nid dim ond waith maes ond hefyd ddadansoddi ôl-gloddio, archifo a chyhoeddi. Gallai fod costau hefyd ynghlwm wrth gadw arteffactau, archifo a storio darganfyddiadau archaeolegol wedi'u cloddio.

5.2 Oherwydd y costau posibl hyn, argymhellir y dylai ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio geirio cyngor archaeolegol yn gynnar drwy drafod eu cynigion gyda swyddogion priodol yr Awdurdod ac adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Gyda gwybodaeth dda am faterion a chyfyngiadau yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn gynnar yn y broses o lunio cynigion datblygu, efallai y gall ymgeiswyr leihau effaith ariannol debygol eu datblygiad drwy liniaru ac osgoi deunydd archaeolegol sensitif.

## Rheoli Ansawdd

5.3 Cyfrifoldeb ymgeiswyr, neu ddatblygwyr, neu'u hasiantau, yw comisiynu contractwyr archaeolegol i wneud gwaith ar eu rhan a bydd angen iddynt fodloni eu hunain o allu'r contractwr archaeolegol y maent wedi'i ddewis i wneud y gwaith hwn.

5.4 Rhaid i'r gwaith archaeolegol gael ei wneud gan staff corff cymwys a phroffesiynol. Dylai fod gan contractwyr archaeolegol a benodir brofiad priodol, a dylent fod yn cael eu rheoli gan Aelod o Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (MCIfA), sydd wedi'i ddilysu'n briodol. Rhaid i'r contractwr archaeolegol gadw at Gôd Ymarfer Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a'r Côt Ymarfer Cymeradwy er Rheoleiddio Trefniadau Cytundebol mewn Archaeoleg Maes, ac at y Safonau a'r Canllawiau perthnasol.

Dolen gyswllt i **Safonau a Chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr:** <https://www.archaeologists.net/codes/cifa>

5.5 Argymhellir hefyd, er budd pennaf y rhai sy'n comisiynu gwaith archaeolegol, eu bod yn sicrhau bod gan contractwyr indemniad proffesiynol priodol neu fathau eraill o yswiriant.

## Gweddillion Dynol

5.6 Lle deuir ar draws gweddillion dynol wrth wneud gwaith archaeolegol rhaid i ddatblygwyr gadw at y ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau ymarfer gorau ar drafod y deunydd sensitif hwn. Pan ddarganfyddir nhw, rhaid i weddillion dynol gael eu gadael lle maen nhw bob amser, eu gorchuddio a'u gwarchod yn sensitif.

5.7 Ni ddylid cynnal unrhyw ymchwiliad pellach. Os yw'n hanfodol symud y gweddillion, rhaid cael trwydded gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Claddu 1857.

## Y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol

5.8 Ceir yn Sir Gaerfyrddin nifer helaeth o erddi a pharcdiroedd hanesyddol pwysig, llawer ohonynt wedi'u rhestru yn yr adran ar Sir Gaerfyrddin yn y *Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru*, a gyhoeddir gan Cadw. Mae'r Gofrestr yn darparu gwybodaeth i helpu i sicrhau bod cymeriad hanesyddol

tirwedd yn cael ei gynnal a, lle mae newid yn cael ei ystyried, fod hynny'n digwydd ar sail gwybodaeth. Dylid cyfeirio at y canllaw ymarfer da sy'n cyd-fynd â'r gofrestr, sy'n egluro sut y dylid defnyddio'r Gofrestr wrth asesu effaith datblygiadau mawr ar y dirwedd hanesyddol.

5.9 Yng nghyswllt ceisiadau cynllunio a allai effeithio ar safleoedd Gradd I a II\*, a'u lleoliadau hanfodol, bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio cyngor Cadw wrth asesu addasrwydd y cynigion. Yng nghyswllt safleoedd Gradd II a safleoedd eraill o ddiddordeb lleol nad ydynt wedi'u cofrestru, lle mae hynny'n briodol caiff barn Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, y Gymdeithas Hanes Gerddi ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru ei hystyried.

Gellir gweld canllawiau Cadw drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:

<http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Change%20to%20Registered%20Historic%20Parks%20&%20Gardens%20in%20Wales%202022%20EN.pdf>

## Y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol

5.10 Mae rhannau 2.1 a 2.2 o'r gofrestr anstatudol, y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, yn cynnwys gwybodaeth am dirweddau hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig. Mae'r tirweddau hyn wedi cael eu cydnabod fel ardaloedd sydd "ymhlith asedau diwylliannol mwyaf gwerthfawr y genedl, ac fel rhannau arbennig, bregus ac unigryw o'n treftadaeth".

5.11 Yn Sir Gaerfyrddin mae saith ardal tirwedd hanesyddol wedi cael eu cydnabod a'u cofrestru, sef:

Rhan 2.1 o'r Gofrestr, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol

- Tywi Valley
- Taf and Tywi Estuary
- Dolaucothi
- Preseli (rhan)
- Black Mountain and Mynydd Myddfai

Rhan 2.2 o'r Gofrestr, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig

- Drefach and Felindre
- Lower Teifi Valley (rhan)

5.12 Dywed Paragraff 6.5.26 o Bolisi Cynllunio Cymru: *"Dylai awdurdodau cynllunio lleol warchod a chadw parciau a gerddi, a'u lleoliadau, a nodir yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'n rhaid ymgynghori â Cadw ynghylch pob cais cynllunio lle mae gwaith datblygu yn debygol o effeithio ar safle neu leoliad parc neu ardd hanesyddol gofrestredig. Dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd gofrestredig, neu ei leoliad/leoliad fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.*

5.13 I helpu'r rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, mae Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru wedi paratoi *Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu Adolygwyd (2<sup>a</sup>ail) Argraffiad, 2007*. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Atodiad Technegol -



*Asesu Arwyddocâd Effeithiau Datblygiad ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol, sy'n cael ei alw fel arall yn fethodoleg ASIDOHL2.*

5.14 Mae ASIDOHL2 yn rhoi arweiniad ar sut i ddefnyddio'r broses ac ar y camau technegol sy'n rhan o asesu effaith datblygiad ar dirweddau hanesyddol Sir Gaerfyrddin. Yn y lle cyntaf argymhellir y dylai ymgeiswyr geisio cyngor Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ynglŷn â ph'un a yw eu datblygiad ar raddfa sy'n cyfiawnhau'r angen am asesiad ASIDOHL2 a pha gamau y dylent eu cymryd wrth baratoi'u dogfennau at ddibenion y broses gynllunio.

Gellir gweld canllawiau Cadw drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:

[http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice\\_EN.pdf](http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_EN.pdf)

### **Tirweddau Hanesyddol o Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Leol**

5.15 Nid yw pob tirwedd hanesyddol yng Nghymru yn cael ei hystyried yn dirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol neu wedi'i chynnwys yn y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru*. Mae

yna lawer o dirweddau eraill, unigol, o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol sy'n arwyddocaol oherwydd y gwerth hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol neu gynhenid y maent yn ei gyfrannu i'w cymunedau.

5.16 Lle caiff tirweddau hanesyddol o'r fath eu cydnabod a bod Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol yn angenrheidiol, bydd gofyn i ymgeiswyr/datblygwyr gynnal asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar y dirwedd hanesyddol. Sefydli'r gofyniad hwn drwy Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 [OS 1999 Rhif 293] fel y'u diwygiwyd, ac fel y maent wedi'u nodi yn TAN 24 (paragraffau 7.6 a 7.7).

5.17 Yn y lle cyntaf argymhellir bod ymgeiswyr yn ymgynghori ag adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i drafod a yw eu datblygiad yn debygol o effeithio ar dirwedd hanesyddol nad yw wedi'i chofrestru, a pha gamau gweithredu allai fod yn ofynnol i asesu a lliniaru'r effaith hon.

### **Ystyriaethau Amgylcheddol Eraill**

5.18 Gall gwaith safle archaeolegol, sydd wedi'i gomisiynu gan ymgeisydd cyn penderfynu ar gais neu fel rhan o ddatblygiad sydd wedi cael caniatâd, effeithio ar fuddiannau amgylcheddol eraill, megis cynefin, perthi, dŵr daear, ffawna a fflora, ac ati. Cyfrifoldeb y rhai sy'n comisiynu gwaith archaeolegol mewnwthiol a'r rhai sy'n gwneud y gwaith yw ystyried a allai fod effeithiau amgylcheddol eraill yn deillio o'u gweithgareddau. Dylid ceisio cyngor pellach gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.

# Tref Caerfyrddin

6.1 O ran ei phwysigrwydd hanesyddol ac archaeolegol, mae i Gaerfyrddin, fel y dref hynaf yng Nghymru y mae pobl wedi byw'n ddi-dor ynddi, werth eithriadol. Ers ei sefydlu gan filwyr Rhufeinig yn y ganrif 1<sup>af</sup> OC, mae pobl wedi byw yng Nghaerfyrddin ar hyd y canrifoedd tan nawr. Mae pob cyfnod yng ngorffennol y dref wedi gadael ei waddol neu ei ôl arbennig ei hun, ac mae hynny'n goroesi yn y cofnod haenog o weddillion archaeolegol. Mae gwaith cloddio dros y 40 mlynedd diwethaf a mwy wedi dangos mor dda y mae'r adnodd gwerthfawr hwn wedi goroesi a mor gyfoethog yw. Mewn rhai achosion, dyma'r unig wybodaeth sydd ar gael bellach i'n helpu i ddeall tarddiad a datblygiad cymhleth y dref a bywydau ei thrigolion blaenorol.

6.2 Mae gweddillion claddedig Caerfyrddin Rufeinig, tref a oedd yn ymledu dros rhyw 33 erw, o bwys cenedlaethol, fel y mae'r dystiolaeth o feddiannaeth ddiweddarach yn y cyfnod canoloesol cynnar a'r cyfnodau canoloesol ac ôl-ganoloesol. Lle mae dyddodion milwrol a threfol Rhufeinig wedi cael eu canfod yng Nghaerfyrddin, mae ansawdd y deunydd archaeolegol sy'n goroesi, wedi'i ddiogelu o dan ddyddodion diweddarach, yn

eithriadol o dda. Mae llawer i'w ddeall eto am y cynllun strydoedd a'r strwythurau Rhufeinig, yn cynnwys prif adeiladau gweinyddol, dinesig a chrefyddol y dref gynnar.

6.3 Er na wyddom fawr am y cyfnod ar ôl i'r Ymerodraeth Rufeinig Orllewinol chwalu, mae'n dra thebygol fod rhyw fath o feddiannaeth wedi parhau yng Nghaerfyrddin rhwng y 5<sup>ed</sup> ganrif a'r 11<sup>eg</sup> ganrif yn ystod y cyfnod pan ymddangosodd iaith a diwylliant Cymraeg penodol. Efallai fod y wybodaeth archaeolegol, a fydd yn bwrw goleuni ar y cyfnod hwn yn hanes Caerfyrddin na wyddom fawr amdano, yn goroesi mewn ardaloedd penodol yn yr hen dref Rufeinig a'r cyffiniau, megis safle cwlt Llanteulyddog, a feddiannwyd yn ddiweddarach gan y Priordy canoloesol. Yn sgil y Goncwest Normanaidd o Orllewin Cymru tua diwedd yr 11<sup>eg</sup> ganrif cafodd castell Brenhinol o bwys strategol ei godi yng Nghaerfyrddin a datblygodd tref sylweddol a phorthladd mewndirol o'i amgylch. Yn y cyfnod Ôl-ganoloesol cafodd amddiffynfeydd y dref eu hymestyn yn ystod Rhyfel Cartref yr 17<sup>eg</sup> ganrif ac ehangwyd ardaloedd preswyl a masnachol y dref.

6.4 Oherwydd arwyddocâd hanesyddol ac archaeolegol cydnabyddedig Caerfyrddin, comisiynodd Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â Cadw, *Arolwg Tref Hanesyddol Caerfyrddin (2004)*, adroddiad sy'n dwyn ynghyd y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am ddatblygiad hanesyddol y dref ac yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy o fewn y broses gynllunio. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi arweiniad i ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd cynllunio. Argymhellir felly bod datblygwyr posibl yng Nghaerfyrddin yn edrych ar y ddogfen hon cyn llunio unrhyw gynigion.

6.5 Yn deillio o'r 'Ardaloedd Cymeriad Hanesyddol Trefol', mae Parthau Cyngor Cynllunio wedi cael eu diffinio. Mae'r rhain wedi'u bwriadu ar gyfer defnydd bob dydd gan swyddogion cynllunio i ddarparu gwybodaeth a chymorth, yn arbennig yn ystod trafodaethau gyda datblygwyr posibl yn y cyfnod cyn llunio cais cynllunio. Lle mae hynny'n berthnasol, bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu canlyniadau gwerthusiad maes archaeolegol a gwybodaeth am ddyluniad seiliau yn gefn i'w ceisiadau cynllunio.

# Atodiad

1

## Rheoli Datblygu - Archeoleg o fewn y Broses o Wneud Cais Cynllunio

A1.1 Isod nodir y prif fathau o waith archaeolegol a allai fod yn ofynnol fel rhan o'r broses gynllunio. Efallai y bydd y Cyngor yn mynnu bod ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ar ffurf gwerthusiad archaeolegol cyn penderfynu ar unrhyw gais. Gall y gwerthusiad hwn fod yn ddim ond astudiaeth desg, neu gall fod rhaid cynnal ymchwiliad mewnwthiol o safle'r cais. Gall methiant ar ran yr ymgeisydd i ddarparu gwybodaeth sy'n bodloni'r Cyngor arwain at wrthod unrhyw gais cynllunio. Efallai y bydd angen gwneud y gwaith archaeolegol gofynnol cyn y penderfynir ar gais cynllunio, neu i fodloni gofynion amodau cynllunio ôl-ganiatâd. Rhaid i unrhyw waith archaeolegol gael ei wneud gan archaeolegwyr proffesiynol yn unol â Safon a Chanllawiau perthnasol Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr Maes.

A1.2 Pan ofynnir iddi, bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar ran y Cyngor yn darparu briff ar gyfer gwaith archaeolegol er mwyn sicrhau bod y gwaith a wneir yn cyflawni union ofynion y broses

gynllunio. Gall y briffiau hyn helpu ymgeiswyr wrth iddynt gomisiynu gwaith archaeolegol a darparu manylebau manwl neu gynlluniau ymchwilio ysgrifenedig i gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod.

### Arfarnu

A1.3 Efallai y defnyddir arfarniad fel math ysgafnach o asesiad desg (gweler isod) yn unswydd i'r diben o ddarparu ateb ar sail gwybodaeth i'r cwestiwn pa un a oes dimensiwn archaeolegol i'w ystyried wrth benderfynu ar gais, ac a oes angen gwneud hyn yn eglur drwy ymchwilio ymhellach.

A1.4 Mae'r gwaith fel arfer yn golygu edrych yn gyflym ar wybodaeth sydd eisoes ar gael yn hwylus a'i holi'n broffesiynol – bydd hyn yn cynnwys mapiau cynnar a ffotograffau o'r awyr, sy'n cael eu dal yng Nghofnod Rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol. Elfen hanfodol o'r arfarniad yw arolwg ar droed o'r safle ac archwilio'r data geotechnegol sydd ar gael. Bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn darparu briff cyffredinol ar gyfer arfarniad, y gellir ei deilwra i baratoi manyleb.

### Asesiad desg

A1.5 Er mwyn deall potensial archaeolegol safle, dylai datblygwyr geisio cynnal astudiaeth pen desg cyn cyflwyno cais cynllunio. Neu, efallai y bydd astudiaeth o'r fath yn amod o gymeradwyaeth gynllunio o dan amgylchiadau priodol.

A1.6 Dylai asesiad desg nodi'r adnodd archaeolegol hysbys neu bosibl o fewn ardal neu safle penodol ar dir, parth rhynglanw neu danddwr. Mae'n golygu casglu ynghyd wybodaeth ysgrifenedig, ddarluniadol, ffotograffig ac electronig sy'n bodoli'n barod er mwyn nodi cymeriad tebygol, hyd a lled, ansawdd, a gwerth yr adnodd archaeolegol hysbys neu bosibl mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel sy'n briodol. Mae arolwg ar droed yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol o unrhyw asesiad desg.



A1.7 Dylai'r astudiaeth pen desg asesu'r safle o ran math, hyd a lled, dyddiad tebygol, natur a dyfnder y gweddillion archaeolegol ac a yw'r archaeoleg yn ymestyn y tu hwnt i'r safle. Dylai hefyd asesu effaith weledol bosibl y datblygiad ar safleoedd archaeolegol o fewn ardaloedd chwilio y cytunwyd arnynt.

A1.8 Dylai'r asesiad pen desg arwain at un neu ragor o'r opsiynau canlynol:

- Ffurio strategaeth i sicrhau bod yr adnodd yn cael ei gofnodi, ei gadw neu'i reoli.
- Ffurio strategaeth ar gyfer ymchwilio ymhellach, boed hynny'n fewnwithiol neu beidio, lle nad yw cymeriad a gwerth yr adnodd wedi'i ddiffinio'n ddigonol fel bod modd dyfeisio strategaeth liniaru neu ymateb arall.
- Ffurio cynnig ar gyfer ymchwiliad archaeolegol pellach o fewn rhaglen ymchwil.

A1.9 Yng nghyswllt arfarniadau ac Aseidiadau Pen Desg, bydd gofyn i'r contractwr archaeolegol gytuno ar feysydd chwilio'r astudiaeth gydag adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed cyn gwneud unrhyw gais am chwiliad o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol. Dylid cyflwyno

manylebau ar gyfer y gwaith hefyd. Mae'r un peth yn wir o ran manylebau a chynlluniau ymchwilio ysgrifenedig a gyflwynir ar gyfer ymchwiliadau maes – bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn argymhell i'r Awdurdod Cynllunio Lleol y dylid cymeradwyo'r dogfennau a gyflwynir.

### **Ymchwiliad Maes – Ar y safle**

A1.10 Dylai ymchwiliad neu werthusiad maes gael ei gyflawni gan sefydliad neu archaeolegydd sydd â chymwysterau proffesiynol, ac mae paragraff 4.7 TAN 24, troednodyn 56, yn cyfeirio at safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (ClfA). Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am werthusiad maes lle mae ganddo reswm da dros gredu bod adnodd archaeolegol arwyddocaol yn bresennol ar safle cais.

A1.11 Gall gwerthusiad fod ar ffurf rhaglen gyfyngedig o waith maes mewnwithiol, sy'n penderfynu ar bresenoldeb neu absenoldeb nodweddion archaeolegol ac yn fodd i asesu eu gwerth cymharol mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel sy'n briodol. Bydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiad ac archif drefnus. O dan rai

amgylchiadau, efallai y cynhelir rhaglen o waith nad yw'n fewnwithiol – pethau fel cerdded caeau, arolwg cloddwaith neu geoffiseg – cyn hyn.

A1.12 Fel arfer bydd y gwaith yn golygu tyllu ffosydd prawf yn gyflym drwy gyfrwng cloddio mecanyddol dan oruchwyliaeth archaeolegol. Rhaid cytuno gydag adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar nifer a lleoliad y ffosydd hyn cyn dechrau ar y gwaith, ac ar y sail resymegol dros ei gyflawni. Rhaid glanhau'r ardaloedd gwerthuso i safon briodol er mwyn profi presenoldeb, neu absenoldeb, nodweddion archaeolegol ac i bennu eu harwyddocâd. Ym mhob ardal eir ati i gloddio'r isafswm o nodweddion archaeolegol, er mwyn deall cymeriad, dosbarthiad, hyd a lled, dyddiad a phwysigrwydd y gweddillion archaeolegol. Gwneir digon o waith cloddio ym mhob ardal i sicrhau bod y gorwelion naturiol yn cael eu cyrraedd a'u profi. Os na ellir cloddio â llaw am resymau diogelwch, gellir defnyddio taradr llaw i geisio asesu dyfnder eithaf y dyddodion haenedig ym mhob ardal.

A1.13 Dylai'r adroddiad a gynhyrchir gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel gwybodaeth bellach i'w helpu i benderfynu ar unrhyw gais cynllunio.

A1.14 Gellir canfod arwyddion o weithgarwch dynol claddedig drwy ddulliau nad ydynt yn fewnwithiol gan ddefnyddio amryw o fethodolegau gwyddonol a chyfarpar amrywiol. Y dull arferol a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynnal arolwg geoffisegol yw magnetometer. Defnyddir arolygon gwrthedd a radar sy'n treiddio'r ddaear yn achlysurol.

A1.15 Gall amodau daearegol penodol-i-safle gael effaith fawr ar ansawdd y canlyniadau o arolygon o'r fath a dim ond ar ôl cynnal profion methodolegau cychwynnol y gellir penderfynu pa fath o arolwg sy'n briodol ym mhob achos.

A1.16 Gall y gwaith hwn yn aml ragflaenu gwerthusiad maes gan fod canlyniadau synhwyo o hirbell yn gallu helpu i benderfynu ar y sail resymegol sy'n dweud faint o ffosydd prawf sy'n ofynnol a'u lleoliad. Mae'n annhebygol y bydd synhwyo o hirbell ar ei ben ei hun yn darparu'r wybodaeth ofynnol am adnodd archaeolegol. Yn ddieithriad, bydd angen profi canlyniadau'r arolygon hyn nad ydynt yn fewnwithiol drwy broses ffisegol profion cloddio.

## Briff Gwyllo

A1.17 Fel arfer caiff briff gwyllo archaeolegol ei gyflawni tra bydd datblygiad sydd wedi'i gymeradwyo yn mynd rhagddo i'r diben o arsylwi ar, cloddio a chofnodi gweddillion archaeolegol sy'n dod i'r amlwg yn ystod gweithgareddau fel codi uwchbridd neu dorri seiliau. Rhaid bod archaeolegydd proffesiynol yn bresennol ar y safle i gyflawni un ai friff gwyllo dwys neu un ysbeidiol.

A1.18 Dylai datblygwyr ystyried goblygiadau gwaith briff gwyllo, sy'n arwain at ddarganfod gweddillion archaeolegol sylweddol. Dylid sefydlu mesurau wrth gefn i ddarparu ar gyfer amgylchiadau o'r fath nad oes modd eu rhagweld sy'n gallu golygu oedi a goblygiadau cost. Lle mae gweddillion annisgwyl yn dod i'r amlwg, bydd gofyn i'r archaeolegydd sy'n gwyllo gysylltu ag adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i gael cyngor pellach. Tra bydd yr ymgynghori hwn yn digwydd, fel arfer bydd gofyn atal y gwaith datblygu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr adnodd archaeolegol nes bydd trefniadau wedi'u sefydlu i greu cofnodion archaeolegol priodol. Dylai adroddiad ar y gwaith briff gwyllo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, pa un a yw wedi rhoi canlyniadau cadarnhaol neu negyddol.

## Cloddio Llawn

A1.19 Fel arfer mae cloddio archaeolegol llawn neu 'gadw drwy gofnod' yn ofynnol lle nad oes unrhyw fath arall o liniaru yn ymarferol. Mae'n golygu bod rhaid wrth gloddio stratigraffig manwl a gofalus a chofnodi dyddodion archaeolegol gan archaeolegwyr proffesiynol o fewn ardal benodedig. Caiff y gwaith ei gyflawni gydag amcanion ymchwil diffiniedig a than reolaeth a hynny fel arfer cyn cychwyn ar y rhaglen ddatblygu. Bydd y rhaglen gloddio yn archwilio, cofnodi a dehongli dyddodion, nodweddion a strwythurau archaeolegol ac, fel sy'n briodol, yn adfer arteffactau, ecoffactau a gweddillion eraill. Caiff y cofnodion a lunnir a'r gwrthrychau a gesglir yn ystod y gwaith maes eu hastudio ac fe gyhoeddir canlyniadau'r astudiaeth mor fanwl ag sy'n briodol i ddyluniad y prosiect, fel y cytunir gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

## Trefniadau Monitro

A1.20 Bydd yr holl waith archaeolegol a gyflawnir o fewn y broses gynllunio yn cael ei fonitro o gychwyn cyntaf y prosiect a'r gwaith maes hyd nes y caiff yr archif terfynol ei adneuo ac y cyhoeddir y canlyniadau terfynol.

A1.21 Yn gyffredinol, gellir crynhoi diben y monitro gan adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel a ganlyn: -

- *Sicrhau y cynhelir safonau archaeolegol uchel a'r arferion gorau, wedi'u seilio ar y Safonau a'r Canllawiau a gyhoeddir gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr.*
- *Sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau a gofynion cynllunio.*
- *Sicrhau y cydymffurfir â'r briff a ddarperir gan yr archaeolegydd cynllunio ac â'r manylebau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*
- *Sicrhau perthnasedd y wybodaeth bellach a geir drwy'r gwaith i'r broses gynllunio wrth iddi fynd rhagddi.*
- *Sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir gan y contractwr archaeolegol yn rhesymol mewn termau cynllunio.*

- *Sicrhau bod unrhyw argymhellion pellach yn deillio o'r gwaith wedi'u seilio ar wybodaeth fanwl a'u bod yn rhesymol mewn termau cynllunio.*
- *Lle mae'n ofynnol, helpu i lunio strategaeth liniaru archaeolegol a allai ddiogelu'r adnodd archaeolegol tra bydd hefyd yn galluogi'r datblygiad sydd wedi'i ganiatáu.*
- *Sicrhau y cydymffurfir ag amodau cynllunio a'u bod yn cael eu cyflawni'n foddhaol.*

A1.22 Lle mae gwerthusiad maes archaeolegol cyn-penderfynu yn ofynnol, bydd adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn ymweld â'r safle i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r fanyleb y cytunwyd arni a'i fod yn berthnasol i'r broses gynllunio sy'n mynd rhagddi. Hysbysiad cychwyn, amserlen ragamcanol a chopi o'r Asesiad Risg lechyd a Diogelwch i gael eu cyflwyno i'r ymddiriedolaeth ddim llai na 5 diwrnod gwaith cyn cychwyn y gwaith.

## Rheoliadau Perthi

A1.23 Nod y Rheoliadau Perthi (1997) yn ceisio diogelu perthi yr aseswyd eu bod yn bwysig o ran meini prawf sy'n ymgorffori elfennau hanesyddol, gan gynnwys eu dyddiad dogfennu a'u cysylltiad â nodwedd archaeolegol. Yn unol â hynny, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn ymgynghori ag adran Rheoli Datblygu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am wybodaeth ynglŷn â cheisiadau ar gyfer cael gwared ar berthi.

## Safonau a Chanllawiau:

### Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIFA)

<https://www.archaeologists.net/codes/cifa>

### Cadw:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

# Enwau Cyswllt

Cyngor Sir Caerfyrddin  
Yr Adain Flaen-gynllunio  
7/8 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LQ

01267 228812  
blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk  
www.sirgar.gov.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - Rheoli  
Datblygu  
Corner House  
6 Stryd Caerfyrddin  
Llandeilo  
Sir Gaerfyrddin  
SA19 6AE

01558 823121  
info@dyfedarchaeology.org.uk  
www.dyfedarchaeology.org.uk

Mike Ings – Uwch Archaeolegydd Rheoli  
Datblygu: m.ings@dyfedarchaeology.org.uk  
Zoe Bevans-Rice – Archaeolegydd Rheoli  
Datblygu:  
z.bevansrice@dyfedarchaeology.org.uk

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ  
  
0300 0256000  
Cadw@Wales.gsi.gov.uk

